***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 122

# Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2014

## RHAN 3

## Arbed

### Dehongli

**4.** Yn y rhan hon o'r Rheoliadau—

ystyr "cynllun 2013" ("*2013 scheme*") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau 2012 neu sy'n gymwys yn ddiofyn ar 1 Ebrill 2013 yn unol â pharagraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr "Rheoliadau 1993" ("*2013 Regulations*") yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993;

ystyr "Rheoliadau 2012" ("*2012 Regulations*") yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012(**1**).

### Darpariaeth Arbed

**5.** Nid yw'r diwygiadau a wneir i Reoliadau 1993 gan reoliad 3 yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw geisiadau a wneir neu ostyngiadau a ddyfernir yn unol â darpariaethau un neu ragor o gynlluniau 2013.

(**1**) O.S. 2012/3144 (Cy.316) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/112 (Cy.17).